




Taflen Wybodaeth Mentora Ffiseg

Haf 2022

Pam mae angen y Prosiect Mentora Ffiseg yng Nghymru?



Ffigur 1: Y niferoedd a safodd Safon Uwch Gwyddoniaeth yn 2018
(<https://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels/2018/main-results-tables/a-level-and-as-results-summer-2018>)

Bob blwyddyn, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng nifer y merched sy'n astudio ffiseg Safon Uwch o gymharu â'r rheini sy'n astudio bioleg neu gemeg. Wrth edrych ar gyrsiâu ffiseg israddedig mewn prifysgolion yng Nghymru, menywod oedd 20.1% o'r myfyrwyr israddedig amser llawn a gofrestrodd yn 2017/18.

Beth yw'r Prosiect Mentora Ffiseg?

Prosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yw'r Prosiect Mentora Ffiseg. Ei nod yw:

- Cynyddu nifer y myfyrwyr ysgol, yn enwedig merched, sy'n bwriadu astudio ffiseg ôl-16,
- Tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a hyrwyddo gyrfaedd STEM i fyfyrwyr ysgol,
- Cynyddu hyder a gwydnwch disgyblion ysgol sy'n astudio Ffiseg.
- Hyrwyddo gyrfa dysgu i fyfyrwyr prifysgol israddedig ac ôl-raddedig,
- Cynyddu hyder, datblygu sgiliau cyflogadwyedd a rhoi profiad i fentoriaid sy'n fyfyrwyr ar gyfer eu CV,
- Cynyddu hyder athrawon ffiseg yng Nghymru, yn enwedig y rheini nad ydyn nhw'n arbenigwyr,
- Annog y broses o newid diwylliant yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan, a hynny i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws y cwricwlwm, ac
- Ymgysylltu ag ysgolion uwchradd Cymru, yn lleol ac yn genedlaethol.

Bydd dau gylch mentora ym mhob blwyddyn academiaidd, rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr ac wedyn rhwng mis Chwefror a mis Mawrth. Mewn cylch mentora, bydd dau Fentor Ffiseg hyfforddedig yn cael eu paru ag ysgol leol lle byddan nhw'n cynnal chwe sesiwn fentora wythnosol gyda grwpiau o hyd at ddeuddeg myfyrwr yn y blynyddoedd ysgol 9 - 11. Bydd y sesiynau hyn o leiaf 45 munud o hyd ac yn dilyn themâu wythnosol penodol.

Os yw ysgol yn fwy na 45 munud o'r brifysgol sy'n cymryd rhan, yna cynigir mentora rhithwir i'r ysgol.

Yn ei flwyddyn beilot (Ionawr 2019 - Mai 2020), bu'r prosiect yn llwyddiannus iawn o ran cyflawni ei nodau, ac roedd y myfyrwyr ysgol a fentorwyd yn dangos cynnydd ystadegol arwyddocaol o ran



y bwriad i astudio Ffiseg Safon Uwch. Roedd canlyniadau'r cylch canlynol (cylch 4) yn dangos canlyniadau tebyg ac roedd 67% o'r disgyblion a gymerodd ran yn fenywod. Gallwch chi ddarllen rhagor am ganlyniadau gwerthuso'r prosiect hyd yn hyn ar y [wefan](#).

Pwy all fod yn Fentor Ffiseg?

Mae'r cyfle i fod yn Fentor Ffiseg ar gael i unrhyw un sydd:

- yn fyfyrwr presennol ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru neu Brifysgol Glyndŵr Wrecsam,
- â chymhwyster ôl-16 mewn ffiseg (e.e. Safon Uwch, Bagloriaeth Ryngwladol, Safon Uwch yr Alban, ac ati), neu gymhwyster ôl-16 sy'n gysylltiedig â ffiseg (e.e. BTEC Lefel 3 mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol)
- wedi ymrwmo i gymryd rhan yn llawn yn y prosiect a chyfathrebu'n gyson â'r Cydgysylltydd Cenedlaethol, ac
- yn frwdfrydig dros Ffiseg, cynhwysiant ym maes STEM ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr!

Caiff pob mentor ei hyfforddi'n llawn, ac felly anogir unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf uchod i wneud cais, ni waeth beth fo'i brofiad.

Pam dylwn i fod yn Fentor Ffiseg?

Gall Mentoriaid Ffiseg sy'n ymwneud â'r prosiect ac sy'n cyfathrebu â'r Cydgysylltydd Cenedlaethol elwa'n fawr o fod yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys manteision fel:

- Bwrsariaeth o hyd at £200 am bob grŵp mentora a arweinir,
- y cyfle i gael hyfforddiant manwl a defnyddiol (y gallwch chi ddarllen mwy amdano yn [y blog gan Hanna](#), Mentor Ffiseg presennol),
- y cyfle i gwblhau [uned Lefel 4 Cynyddu Ymgysylltu â Ffiseg drwy Fentora](#) a achredir gan Agored Cymru, yn rhad ac am ddim.
- profiad gwerthfawr ar gyfer eich CV,
- datblygu sgiliau cyflogadwyedd, megis cyfathrebu, gwaith tîm a threfnu,
- cynyddu hyder,
- boddhad personol yn sgîl ysbrydoli cenedlaeth o wyddonwyr ifanc, ac

mae hwn yn gyfle arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr sy'n ystyried gyrfa dysgu, fel y gallwch chi ddarllen yn y [blog hwn gan Lille](#), Mentor Ffiseg blaenorol.

Beth fyddaf i'n ei wneud, a minnau'n Fentor Ffiseg?

Os byddwch chi'n llwyddiannus yn eich cais, **bydd yn rhaid ichi gwblhau hyfforddiant anghydamserol ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 12 a 13 Medi 2022**. Byddwch chi wedyn yn aelod o'n cymuned o fentoriaid sy'n cyflwyno Mentora Ffiseg mewn ysgolion ledled Cymru. Mae mentora'n cael ei gynnal mewn cylchoedd ac rydyn ni'n paru mentoriaid ag ysgolion ar ddechrau pob cylch.

Ar ôl cael eich paru ag ysgol, byddwch chi'n cael cyfarfod cychwynnol â'ch enw cyswllt yn yr ysgol. Wedi hynny, byddwch chi'n gweithio gyda'ch cyd-fentor i baratoi a chyflwyno chwe sesiwn fentora wyneb yn wyneb neu ar-lein i grŵp bach o fyfyrwyr ysgol blwyddyn 9 – 11 mewn ysgol uwchradd yng Nghymru. Ar ddiwedd cylch mentora, gofynnir hefyd i fentoriaid fynd i seremoni Wobrwyo a Dathlu fydd yn dathlu ymrwymiad a llwyddiant y mentoreion. A chithau'n fentor, dylech chi barhau



i gysylltu â'r Cydgysylltydd Cenedlaethol a'ch athro cyswllt drwy gydol y cyfnod a sicrhau bod unrhyw broblemau neu faterion perthnasol yn cael eu cyfleu'n brydlon.

Efallai y cewch y cyfle hefyd i gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill y mae'r Prosiect Mentora Ffiseg yn rhan ohonyn nhw, er enghraifft cymryd rhan mewn fideos neu gynrychioli mentoriaid mewn cynhadledd.

Sut mae gwneud cais?

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais i fod yn Fentor Ffiseg, llenwch y [ffurflen gais ar-lein hon](#) a'i chyflwyno **cyn 23:59 ddydd Sul 7 Awst 2022**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â physicsmentoring@cardiff.ac.uk